

## Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 5ed o Ionawr, 2023.

1. **Presennol** John Jones (Cadeirydd), Richard Parry, Edward Evans (Bryncir), Michael Jones (Garndolbenmaen), Richard Williams, Gwilym Evans (Prenteg), Huw Pritchard (Pentrefelin), Megan Lloyd Williams (Golan), Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa)  
Cynghorydd Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd)
2. **Ymddiheuriadau** Iddon Edwards (Penmorfa), Clifford Williams (Garndolbenmaen), Sarah Jones (Pentrefelin), John Till (Golan), Cynghorydd June Jones (Cynghorydd Cyngor Gwynedd)

Coffawyd y diweddar Mr Dafydd Thomas a fu'n gynghorydd Cymuned dros Benmorfa am flynyddoedd lawer a chydymdeimlwyd gyda'i wraig, Margaret a'i fab, Dylan a'i deulu.

3. **Ddim yn bresennol** Neb
4. **Datgan buddiant** - Gwenno Emlyn Huws a Megan Lloyd Williams - Eitem 13  
Gwilym Evans - Eitem 16 (g)
5. **Cywirdeb cyn-gofnodion** Huw Pritchard yn cynnig a Richard Williams yn eilio.
6. **Materion yn codi o'r cyn-gofnodion**

**Etholiad 2022:** Clerc i ddarganfod pa gynghorau cymuned eraill oedd a diffyg cworwm yn dilyn yr etholiad nôl ym mis Mai ac i gysylltu hefo'r Clercod i weld os ydynt yn rhannu'r un anfodlonrwydd hefo'r Gwasanaeth Etholiadau.

**John Ystumllyn a Bwrdd Gwybodaeth ar gyfer Eglwys Ynys Cynhaearn:** Mae'r ffurflen gais am Grant o'r Gronfa Celfyddydau Cymunedol gan Gyngor Gwynedd i gael arian tuag at ddarparu bwrdd gwybodaeth ym Mhentrefelin wedi'i gwblhau a'i gyflwyno. Clerc yn gobeithio cael ymateb yn fuan.

Parthed y Grant Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, adroddodd y Clerc ei bod wedi cychwyn llenwi'r ffurflen gais a bod angen dipyn mwy o fanylion. Awgrymwyd i'r Clerc

gysylltu hefo'r Swyddog Adfywio Bro, Steffan Rhys Roberts am gymorth a chefnogaeth.

Cysylltwyd gydag Alun Fôn Williams o'r Uned Twristiaeth, Cyngor Gwynedd er mwyn cael pris ar osod arwydd brown twristiaeth ar geg y lôn am Ynys Cynhaearn. O'r wybodaeth a dderbyniwyd gan Alun, byddai ffi di-ddychwel o £75 (yn cynnwys TAW) i'w dalu hefo'r ffurflen gais a gall arwydd brown gostio oddeutu £400 a TAW.

**Llwybrau Cyhoeddus:** Clerc wedi cysylltu hefo Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy o Gyngor Gwynedd. Dim ymateb hyd yma i ba bryd caiff y gwaith ei gwblhau ar lwybr rhif 5.

**Pont y Traeth, Prenteg:** Cysylltwyd yn ôl gydag Ymgynghoriaeth Gwynedd yn dilyn eu hymateb diwethaf. Gofynnwyd iddynt ba bryd gafodd y bont ei archwilio diwethaf; a fyddai'n bosib cwblhau'r gwaith angenrheidiol yn gynt a hefyd os oes trafodaeth wedi digwydd gyda Phrifyrdd parthed y dŵr yn cronni. Dim ymateb hyd yma. Clerc i gysylltu i ofyn am gyfarfod safle.

**Mynydd Glas, Garndolbenmaen** - Derbyniwyd ymateb gan yr Adran Gynllunio, Parc Cenedlaethol Eryri yn dweud fod ymweliad safle a thrafodaethau wedi'i gael hefo'r perchennog ac fe'i cynghorwyd bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith. Adroddwyd nad oedd cais wedi'i dderbyn hyd yma ac y bydd yr Awdurdod yn cysylltu â'r perchennog am ddiweddariad.

**Bancio ar-lein:** Clerc wedi cofrestru ar gyfer bancio ar-lein.

**Hwb Eifionydd:**

Adroddwyd bod y clerc wedi cysylltu hefo Hwb Eifionydd ar ran y Cyngor Cymuned yn datgan siom nad ydynt wedi cynnwys cynrychiolwyr o gynghorau Cymuned/tref ar y Grŵp Cleifion. Soniwyd hefyd bod anfodlonrwydd yn y diffyg cyfathrebu gyda'r rheiny sydd yn gwasanaethu trigolion a chymunedau o fewn dalgylch Hwb Eifionydd.

Cafwyd ymateb gan Hwb Eifionydd yn dweud bod Grŵp Cleifion wedi ei sefydlu i dderbyn adborth gan drawstoriad o gleifion sydd yn adlewyrchu trawstoriad o anghenion, profiadau, pentrefi a threfi'r feddygfa. Dywedwyd hefyd bod yr aelodaeth gyfredol yn eu galluogi i gyrraedd y nod yma ac felly ni fyddent yn gwahodd aelodau o'r Cynghorau Cymuned.

Awgrymwyd fod y Clerc yn cysylltu hefo'r Grŵp Cleifion i roi gwahoddiad i gyfarfod o'r Cyngor Cymuned am sgwrs. Richard Williams yn cynnig a Megan Lloyd Williams yn eilio.

**Cyfarfodydd Aml - Leoliad:** Awgrymwyd bod angen ymchwilio i gael cymorth i sefydlu cysylltiad band eang ym mhob un o ganolfannau cymdeithasol a'r neuaddau o fewn y gymuned. Clerc i gysylltu hefo Anwen Davies a Steffan Roberts o'r Adran Economi a Chymuned i weld os allent hwy wneud cyswllt hefo Pwyllgorau'r canolfannau a'r neuaddau i sefydlu eu hanghenion a'u cynghori ymhellach.

**Dafarn Faig** - Clerc wedi cysylltu gyda Merfyn Morris o'r Adran Cefnffyrdd i holi am ddiweddariad. Dim ymateb hyd yma.

**Hard-drive:** Mike Jones wedi bod i'r siop gyfrifiadurol ym Mhorthmadog ac wedi prynu Hard-drive i'r Cyngor Cymuned am bris o £79.99. Clerc i ad-dalu Mike ar ran y Cyngor Cymuned drwy drosglwyddiad arian.

**Diffibriliwr, Prenteg:** Clerc wedi holi Unllais Cymru parthed derbyn rhodd ariannol i brynu diffibriliwr a cheisio TAW yn ôl wedyn - does dim problem gyda hyn.

Derbyniwyd manylion cyswllt "The Cave and Crag Club" sydd yn dymuno rhoi rhodd ariannol o £1,500 i'r Cyngor Cymuned i brynu'r diffibriliwr. Clerc i gysylltu gyda'r clwb i ddarparu manylion banc y Cyngor Cymuned er mwyn derbyn y rhodd ac i symud ymlaen hefo gwneud trefniadau i brynu'r diffib. Gwenno Hughes yn cynnig a Richard Williams yn eilio.

**Hysbysfwrdd, Pentrefelin:** Adroddwyd bod un pris wedi'i dderbyn ar gyfer gwneud y gwaith o greu dau hysbysfwrdd newydd i'r pentref. Awgrymwyd ein bod yn gofyn am ddau bris arall cyn gwneud penderfyniad. Clerc i gysylltu hefo dau saer lleol am bris.

## 7. Mynwentydd

Gwenno Emlyn Huws yn datgan fod Mynwent Bethel werth ei weld ar ôl y gwaith tacluso diweddar.

Nododd Gwilym Evans bod ffordd i'r fynwent ym Mhrenteg yn gallu bod yn llithrig.

## 8. Llwybrau Cyhoeddus

Yn y cyfarfod diwethaf gofynnwyd y cwestiwn - pwy sydd yn gyfrifol petai unrhyw un yn cael damwain ar y llwybrau cyhoeddus? Soniwyd yn y cyfarfod diwethaf y dylai bod gan dirfeddianwyr yswiriant. Awgrymwyd yn y cyfarfod yma efallai fod y mater yma yn fwy cymhleth ac y dylid cael arweiniad gan Gyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru - clerc i wneud cyswllt hefo Cyngor Gwynedd yn y lle cyntaf.

## 9. Adroddiad Pentrefi

**Golan/Cwmystradllyn:** Adroddwyd bod yna gylfat wedi cau ac angen ei glirio rhwng Cefn Coch Uchaf a Chefn Coch Isaf. Clerc i adrodd i'r Adran Briffyrdd.

**Bryncir:** Adroddwyd bod cyflwr y tarmac yng nghyffordd Glandwyfach yn wael. Clerc i adrodd i'r Adran Briffyrdd/Cefnffyrdd.

**Prenteg:** Adroddwyd fod draen ger Plas Aberdunant angen gwaith. Clerc i gysylltu hefo'r Adran Briffyrdd i ofyn a allent gwblhau'r gwaith tra mae Parc Gwyliau Aberdunant ar gau am y Gaeaf.

**Garndolbenmaen:** Dŵr yn cronni ar bont Y Fanor. Clerc i adrodd i'r Adran Briffyrdd.

**Pentrefelin:** Lôn Tabor, Pentrefelin yn wlyb ofnadwy ac yn casglu dŵr. Clerc i adrodd i'r Adran Briffyrdd.

**Penmorfa:** Adroddodd y Clerc bod anfoneb wedi cyrraedd ar gyfer y gwaith torri yng nghae chwarae Penmorfa. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu yn ôl hefo'r contractwr i gael cadarnhad o'r dyddiadau ble torrwyd y cae chwarae gan mai dim ond tri hysbysiad gafodd y cynghorydd ganddo. Dal nôl ar dalu'r anfoneb tan y cawn gadarnhad.

Awgrymwyd y dylai'r contractwyr anfon anfoneb ar ôl bob toriad yn hytrach na ar ddiwedd y flwyddyn. Clerc i gysylltu â hwy er mwyn sefydlu'r drefn yma o hyn ymlaen.

## 10. Cyllideb 2023/2024 a Gosod Praesept

Cyflwynwyd adroddiad gan y Clerc yn dangos -

- Gwariant y Cyngor hyd at 31/12/2022
- Amcangyfrif o'r gwariant hyd at 31/03/2023
- Cyllideb draft 2023 - 2024

Penderfynwyd cadw'r praesept yn £18,000.

Gwilym Evans yn cynnig a Megan Lloyd Williams yn eilio.

#### **11. Asesiad Risg**

Trafodwyd Asesiad Risg 2022 a phenderfynwyd nad oedd angen ei newid. Megan Lloyd Williams yn cynnig a Richard Parry yn eilio.

Mynegwyd pa mor bwysig oedd o rŵan, gyda chynghorwyr newydd yn ymuno eu bod yn cael pecyn gwybodaeth sydd yn cynnwys gwybodaeth megis Llawlyfr y Cynghorydd Da, Rheolau Sefydlog, Polisi Cyfrinachedd, Rheolau Cyllidol a.y.b. Clerc i sicrhau fod yr holl wybodaeth yma yn cael ei ddarparu i bob cynghorydd newydd.

#### **12. Ymgynghoriad Ambiwlans Awyr Cymru Safleoedd Caernarfon a'r Trallwng**

Adroddodd y Clerc bod cyswllt wedi'i dderbyn gan Glerc Cyngor Tref Pwllheli yn dymuno ein hysbysu y bydd ymgynghoriad am gyfnod o chwe wythnos yn digwydd yn fuan. Eu bod yn hysbysu pawb er mwyn gwneud yn siŵr fod pawb yn cael y cyfle i ymateb.

#### **13. Sedd Wag Garndolbenmaen a Phentrefelin**

Derbyniwyd un cais ar gyfer y sedd wag yng Ngarndolbenmaen gan Enid Egginton. Penderfynwyd cyfethol Enid Egginton. Richard Parry yn cynnig a Megan Lloyd Williams yn eilio.

Adroddwyd bod dau gais wedi'i dderbyn ar gyfer Pentrefelin. Clerc i gysylltu yn ôl hefo'r ymgeiswyr i ddiolch yn fawr am eu ceisiadau ac y bydd penderfyniad yn cael ei wneud parthed y set wag yma yn y cyfarfod misol ym mis Mawrth.

#### **14. Rheolau Claddu**

Penderfynwyd cynnal Is-bwyllgor Claddu cyn rhyddhau'r rheolau a'r ffurflenni newydd.

#### **15. Gohebiaeth**

- a. Adran Prifffyrdd, Cyngor Gwynedd - Rhaglen Waith Rhagfyr
- b. Rhybudd - Cau'r Ffordd Dosbarth 1 - A497 dan bont y rheilffordd, Wern, Pentrefelin - 16/12/2022
- c. Adran Gyllid, Cyngor Gwynedd - Gosod Praesept 2023/24

## **16. Gohebiaeth Ychwanegol**

- a. Unllais Cymru: Cofrestr Gwasanaeth Blaenoriaeth -Egni
- b. Unllais Cymru: Twyll Courier
- c. Unllais Cymru: Hwb Natur - Pethau Bychain
- ch. Unllais Cymru: Cynhadledd Arfer Arloesol 8/12/22 - Ar lein
- d. Unllais Cymru: Gweminar 16/12/22 Argyfwng Costau Byw
- dd. Veolia: Adolygiad Pris
- e. Veolia: Adolygiad Pris- tâl ychwanegol pwysau gormodol
- f. Unllais Cymru: Ffermio Gwymon yng Nghymru
- ff. Unllais Cymru - Bwletin Newyddion
- g. Parc Cenedlaethol Eryri - Ymgynghoriad Cyhoeddus, Strategaeth Hybu'r Gymraeg
- ng. Unllais Cymru: Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yng Nghymru
- h. Unllais Cymru: Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)
- i. Unllais Cymru: Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadau
- j. Unllais Cymru: Deall budd y cynllun arbedion cyflogres i gyflogwyr a gweithwyr
- l. Comisiynydd Pobl Hŷn: Cylchlythyr
- ll. Unllais Cymru: Rhestr Hyfforddiant

**17. Cynllunio**

**Rhestrau: 5/12, 12/12, 19/12 a 26/12**

**NP2/16/451B - Tir ger Pen y Bryn, Penmorfa, LL49 9SB.** Adeiladu tŷ deulawr fforddiadwy, meddiannaeth leol, creu mynedfa newydd i gerbydau a thirlunio cysylltiedig. **Penderfyniad: Dim Gwrthwynebiad**

**c - Safle Garejis Argoed, Garndolbenmaen, LL51 9RX.** Adeiladu tŷ deulawr ar wahân. **Penderfyniad: Dim Gwrthwynebiad**

**18. Materion Ariannol**

**Ceisiadau am arian:** Canolfan Gymdeithasol Golan, Dawns i Bawb, CFFI Dyffryn Madog, Canolfan Gymdeithasol Pentrefelin, Neuadd Goffa Penmorfa a Chanolfan Prenteg.

**Monitro'r Gyllideb:** Dim gorwariant

**Biliau i'w talu**

Cyflog Clerc	£354.99 (Cynnwys ôl-daliad i'r 6ed o Fedi)
Ffôn	£10.00
Cyfrifiadur	£15.00
HMRC	£88.75
Ôl-dâl y cyn-glerc yn dilyn codiad	£194.11
Cyflog (1/4/22-31/10/22)	
HMRC	£48.53
Mike Jones (Hard-drive)	£79.99
Idris Ll. Jones	£2,664.00
Dylan Edwards	£2,760.00

**Derbyniadau**

Madog Memorials	£30.00
Huw John Jones - Ymgwymerwr	£140.00
Pritchard & Griffiths	£225.00

## Balansau Cyfrifon Banc

Cadw: £16,870.04

Cyfredol: £22,327.42

### 19. Dewis gohebiaeth i'r wasg / wefan

- Coffau Dafydd Thomas
- Praesept ac Asesiad Risg
- Pont y Traeth
- Hwb Eifionydd
- Draen Aberdunant
- Cyfethol i Garndolbenmaen